

COFNODION O GYFARFOD HYBRID CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR AC O BELLTER (TRWY ZOOM), NOS LUN, 19^{EG} GORFFENNAF 2021 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Y Maer, y Cyngorydd. M. Jones (Cadeirydd)

Cynghorwyr N. Bastow, C. Brockley, Gemma Campbell, Mrs H. Fleet; D. Howcroft, C. Hughes, A. Khan, C. Matthews, J. Pearson, T. Pearson (Dirprwy Faer), S. Price, P Richards, S. Ryder, Mrs K. Swindon, M. Tasker, L. Wilkins, M. Worth..

SWYDDOGION: Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref a Swyddog Cyllid Cyfrifol
Mrs R. Dudley, Clerc Cynorthwyol
Ms L. Austin, Swyddog Gweinyddol Cynorthwyol

83/21 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

(a) Croesawyd yr holl aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Tref Mrs Glenys Baker, D. Jones, A. Mason, Mrs H. Meredith ag R. Owen a Chynghorwyr Sir B. Cossey ag M. Doyle.

(b) Gofynnodd y Clerc i'r Cyngor ystyried cymeradwyo cyfnod o absenoldeb o chwe mis, oherwydd gwaeledd, i'r Cynghorydd D. Jones

Penderfynwyd caniatáu cyfnod o absenoldeb o chwe mis i'r Cynghorydd D. Jones.

84/21 Cyhoeddiadau:

Cyhoeddodd y Maer wrth y Cynghorwyr, fe gynhelir y Sul Dinesig am 1pm, dydd Sul 26^{ain} Medi 2021 yn Eglwys St John's Hen Golwyn, a gofynnodd am gefnogaeth gan yr Aelodau. Fe anfonir gwahoddiadau swyddogol yn agosach at y dyddiad.

Gofynnir i bob Aelod nodi'r dyddiad hwn yn eu dyddiaduron / calendrau oherwydd pwysigrwydd y digwyddiad yn y flwyddyn ddinesig

85/21 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad personol a / neu gysylltiad sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Datganodd y Cynghorydd Worth ei gysylltiad ag eitem 6(g) a gadawodd y Siambr tra trafodwyd yr eitem

86/21 Ymwelwyr a'r Cyngor

(a) Cyflwynodd y Clerc cais gan Mel Lawton a James Timber, Trafnidiaeth Cymru, i gael gohirio rhoi eu cyflwyniad i gyfarfod yn y dyfodol oherwydd yr oedi a fu i gael yr awdurdod i symud ymlaen i gam nesaf y prosiect i adfer y defnydd o adeiladau gwag ar orsafoedd. Fe nodwyd hyn gan yr Aelodau.

- (b) Gwahoddwyd y Cynghorwyr Sir i gyflwyno adroddiadau byr gan y Cadeirydd. Dywedodd y Cynghorydd C. Hughes bod y Pier wedi cael ei agor yn swyddogol yr wythnos diwethaf gan y Cynghorydd A. Khan, fel Cadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r Pier ar agor i'r cyhoedd erbyn hyn. Dywedodd y Cynghorydd Hughes hefyd, bod y cwmni a benodwyd i ddatblygu Bwthyn y Ddol (ym Mharc Eirias), wedi mynd i law'r derbynnydd, gan achosi i'r prosiect oedi. Mae'r prosiect o ailddatblygu Planhigfa Bryn Euryn fodd bynnag yn parhau i fod ar amser.

87/21 Cofnodion:

- a) ***Penderfynwyd derbyn, cymeradwyo a llofnodi cywirdeb cofnodion:***
- i) ***Cyfarfod arferol diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 7^{fed} Mehefin 2021.***
- b) ***Penderfynwyd derbyn a nodi cofnodion y cyfarfodydd canlynol:***
- i. ***Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 15^{fed} Mehefin a'r 6^{ed} Gorffennaf 2021.***
- ii ***Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 30^{ain} Mehefin 2021.***

88/21 Materion yn Codi o'r Cofnodion Hynny:

- a) **Cofnod 43/21(a)** – Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r gweddill o'r materion a ohiriwyd o'r Cyfarfod Blynyddol fel a ganlyn:
- (i) **Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol:** Cafwyd cymeradwyaeth gan yr Aelodau i barhau gyda'r dogfennai presennol (wrth aros am adolygiad yn dilyn derbyn canllawiau gan Lywodraeth Cymru ar ofynion Deddf Llywodraeth Leol ag Etholiadau (Cymru) 2021
- (ii) Fe adolygwyd y gynrychiolaeth ar Fudiadau Allanol gan yr Aelodau, gan nodi bod angen i Aelodau cyflwyno adroddiadau yn ôl i'r Cyngor.
- Penderfynwyd penodi'r Cynghorydd Lisa Wilkins i lenwi'r safle gwag fel llywodraethwr Ysgol St Joseph.***
- (iii) Fe nodwyd copi o'r gofrestr o asedau a ddiweddarwyd, fel yr oedd ar 31.3.21 gan yr Aelodau.
- (iv) Fe adolygwyd tanysgrifiadau blynyddol y Cyngor gan yr Aelodau.
- Penderfynwyd cymeradwyo tanysgrifiadau blynyddol i:***
- 1. Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (aelodaeth y Clerc)***
 - 2. Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru***
 - 3. Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy***
 - 3. Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth (cofrestrriad fel Rheolwr / Prosesydd Data)***
- (v) Fe nodwyd crynodeb o bolisiau / gweithdrefnau eraill a fabwysiadwyd gan y Cyngor gan yr Aelodau.
- (b) Cofnodion 12/21(d) 44/21(h) - Pwyllgor Colwyn yn ei Blodau:** Fe nodwyd gan yr Aelodau nad oedd yn bosibl i amnewid y Cylch Gwaith i alluogi'r Cynghorydd Sarah Ryder i gymryd lle'r Cynghorydd Paul Richards am fod y

Cynghorydd Richards eisoes yn aelod o'r Pwyllgor fel cynrychiolydd Glyn yn ei Blodau ac / neu Ffederasiwn Cadwraeth ag Amgylcheddol Bae Colwyn.

Penderfynwyd codi nifer o gynrychiolwyr y Cyngor Tref o 5 i 6 yn y Cylch Gwaith er mwyn cael penodi'r Cynghorydd S. Ryder i'r Pwyllgor.

(c) **Cofnod 44/21(a) - Trwsio'r Cwteri a'r To:** Rhoddodd y Clerc adroddiad ar lafar am y sefyllfa bresennol a gofynnodd i'r Aelodau gymeradwyo nifer o ychwanegiadau at y cytundeb ag i ystyried y broses o gymeradwyo unrhyw waith ychwanegol pellach - crynodeb isod:

(i) Cymeradwyo'r cynnydd yng nghostau'r ddwy ffenestr newydd - £1,182 yr un:

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc cadarnhau gyda'r contractwr a fydd ffrâm y ffenestr yn bren caled neu yn bren meddal (pren caled yn ddewisol).

(ii) Amcangyfrif i drwsio'r to fflat ar yr anecs cefn (i ddilyn):

Penderfynwyd argymhell roi hawl dirprwyo i'r Clerc roi caniatâd, gyda chaniatâd y Maer a Chadeiryddion yr Is-Bwyllgor Adeiladau (Cynghorydd A. Khan) a'r Pwyllgor Polisi a Chyllid

(iii) Trwsio'r difrod i'r gwaith carreg ar y tŵr:

Penderfynwyd cymeradwyo archwiliad gan beiriannydd adeiladu o Vale Consultancy (trefnwyd ar gyfer dydd Gwener 23^{ain} Gorffennaf) am gost o £400 + TAW.

Fe benderfynwyd ymhellach i ddirprwyo i'r Clerc, gyda chaniatâd y Maer a Chadeiryddion yr Is-Bwyllgor Adeiladau a'r Pwyllgor Polisi a Chyllid, i gymeradwyo gwaith trwsio ychwanegol i'r tŵr, hyd at uchafswm o (£2,000) neu gael cymeradwyaeth gan Is-Bwyllgor yr Adeiladu os bydd y swm yn uwch na hyn.

(iv) Gwaith trwsio i'r to / gwaith plwm / estyll dywydd y storfa gefn (gwag):

Penderfynwyd dirprwyo i Is-Bwyllgor yr Adeiladau i ystyried unrhyw waith bellach i'r storfa wag yn y cefn, ar wahân i waith brys / gwneud yn ddiogel.

(v) Trwsio'r gwaith pren pwdr (uwchben y fynedfa i'r hen orsaf heddlu):

Penderfynwyd cymeradwyo gwneud y gwaith, i gynnwys pen y trawstiau a lapiau plwm am gost o £1,056 + TAW, a gofyn i Heddlu Gogledd Cymru a CVSC i dalu'r costau hyn yn unol â'r cytundeb ar rannu costau a gymeradwyid.

(vi) ***Penderfynwyd cadarnhau'r costau ychwanegol o £532 am waith mân / brys a gymeradwywyd gan y Clerc yn ystod archwiliad o'r safle gyda'r pensaer cadwraeth (tra bod y sgaffald ar y safle) i glirio'r tyfiant, trwsio llechi a glanhau cwter blwm yr anecs gefn.***

(vii) Gwaith arall:

Penderfynwyd cymeradwyo addurno 7 o ffenestri lefel uchel ag un drws dianc rhag dân yn yr anecs gefn, tra bod y sgaffald yn ei le, am gost o £940.40 + TAW (a nodi bydd y costau hyn yn cael eu rhannu gyda defnyddwyr yr anecs gefn a'r Cyngor Tref yn unol â'r cytundeb presennol o rannu costau).

(viii) ***Penderfynwyd rhoi awdurdod dirprwyol i'r Clerc, gyda'r Maer a Chadeiryddion yr Is-Bwyllgor Adeiladau (Cynghorydd A. Khan) a'r Pwyllgor Polisi a Chyllid, i gymeradwyo unrhyw gostau ychwanegol pellach a wariwyd wrth gael mynediad i glirio llwyni / tyfiant o unrhyw fannau uchel (tra bod y sgaffald ychwanegol ar y safle) ac i wneud gwaith mân / trwsio arall sydd angen mynediad o lefel uchel.***

(ch) **Cofnod 44/21(e) - Offer i Alluogi Cyfarfodydd Hybrid:** Rhoddodd y Clerc adroddiad ar lafar am y cyngor / costau amcangyfrif a dderbyniwyd gan Cambrian Photography. Roedd yn dal i ddisgwyl am bris ond roeddynt yn argymhell uned rheoli canolog (tua £300) yn gysylltiedig â 3-4 o gamerâu ar wahân, wedi cael eu lleoli a'u ffocysu mewn gwahanol leoliadau yn y Brif Siambr. Am nad oedd gan gamerâu digidol digon o fywyd batri, fe ystyriwyd mai webcamerau byddai'r ateb gorau, am gost o £100 yr un. Fe nodwyd bydd angen ymweliad a'r safle os oedd y Cyngor am symud ymlaen efo hyn, er mwyn penderfynu'r nifer / lleoliadau / anghenion gwifro.

Cafwyd trafodaeth am yr angen am hyn, neu a oedd y sefyllfa bresennol yn ddigonol am y cyfnod presennol (hyd nes y derbynnir arweiniad gan Lywodraeth Cymru ac / neu wasanaethau Technoleg Gwybodaeth CBS Conwy). Awgrymwyd gan un Aelod mai dewis arall byddai cael camera canolog 360° yn arbennig ar gyfer yr ystafelloedd cyfarfod - gyda'r gallu ar gyfer ystafell cynadledda, a gyda gosodiadau camera a baratowyd ymlaen llaw (heb yr angen i adnabod llais).

Penderfynwyd argymhell gohirio hwn a defnyddio'r dechnoleg bresennol ar hyn o bryd, hyd nes y derbynnir arweiniad gan Lywodraeth Cymru.

(d) **Cofnod 46/21(b) – Ymgynghoriad drafft ar Strategaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth:** Cyflwynodd y Clerc copi o'r ddogfen trosglwyddiad gwreiddiol i'w ystyried, ac fe'i nodwyd gan yr Aelodau.

(dd) **Cofnod 71/21 – Grantiau Bychan:**

(i) ***Penderfynwyd cadarnhau talu'r grantiau bychan am yr ail Chwarter i Ymgeiswyr B ag C fel y dangosir yn Rhestr 'C' i'r cofnodion hynny.***

(ii) ***Penderfynwyd cadarnhau talu'r hyn sy'n weddill o gyllideb grantiau bychan 2020/21 (£1,370) i Elusennau Tlodion Llandrillo yn unol ag argymhelliad Pwyllgor Polisi a Chyllid ym Mawrth 2021.***

(e) **Cofnod 71/21(b) - Grantiau am Ddigwyddiadau:**

(i) ***Penderfynwyd cadarnhau talu grantiau (yn amodol ar dderbyn cytundebau lefel gwasanaeth a lofnodwyd) i ymgeiswyr F ac G fel y dangosir yn Rhestr 'D' i'r cofnodion hynny.***

(ii) Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, diweddariad a dderbyniwyd oddi wrth drefnwyr y digwyddiad Uke-a-Bay, yn datgan bydd digwyddiad eleni efo tocynnau ac yn gyfyngedig i 50 o bobl a gyda'r gallu i ddarlledu'n fyw i fannau eraill. Bwriedir cynnal y digwyddiad dydd Sadwrn 7^{fed} Awst yn amodol ar ganllawiau Llywodraeth Cymru. Fe nodwyd felly, bydd y cais am grant i'r Cyngor Tref yn gostwng i oddeutu £1,100.

(f) ***Penderfynwyd nodu penderfyniadau'r Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y cofnodion.***

89/21 Llywodraeth Cymru: Fe nodwyd yr ohebiaeth ganlynol a gyflwynwyd gan y Clerc i gael ei ystyried:

(a) Rheoliadau Cyngorau Cymuned Cymwys (Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol) (Cymwysterau Glercod) (Cymru) 2021: Fe nodwyd bod gan y Clerc eisoes un o'r cymwysterau angenrheidiol i alluogi'r Cyngor i ddefnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol pan ddaw i rym ym Mai 2022.

(b) Y diweddariad ar ymlacio Rheoliadau Covid a chyngor ar ddychwelyd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb ac / neu yn y gweithle,.

Fe nodwyd gan yr Aelodau mai, os yn bosibl, gweithio o adref oedd yn parhau i fod y canllawiau presennol. Fe ddisgwylir i hyn i barhau tan 7^{fed} Awst, yn unol â dull graddol Llywodraeth Cymru o ymlacio'r holl gyfyngiadau. Bydd y staff yn paratoi i ddychwelyd i'r swyddfa pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynghori hyn.

Penderfynwyd argymhell bod y Pwyllgor Polisi a Chyllid yn ystyried mabwysiadu polisi oriau hyblyg (yn seiliedig ar un CBS Conwy) i barhau i alluogi rhyw faint o weithio o adref (ar ôl derbyn cais ysgrifenedig gan y staff) unwaith i'r canllawiau cael eu hamnewid a'r cyfyngiadau codi.

90/21 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC): Fe nodwyd yr adroddiadau / gohebiaeth ganlynol gan yr Aelodau:

(a) Strategaeth drafft ar Ddiwylliant a Lanswyr: Derbyniodd yr Aelodau copiâu o'r sleidiau o gyflwyniad a roddwyd yn ddiweddar i Glercod Trefi Conwy

(b) Rhoddodd y Clerc adroddiad ar lafar am y cyfarfod diweddar ar gynllun Llywodraeth Cymru 'Trawsnewid Trefi' a'r cyllid a ddyrannwyd i Ogledd Cymru sy'n canolbwyntio ar adnewyddu canol trefi.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc cysylltu ag Elen Edwards CBSC, gyda golwg ar gyflwyno cais / datgan diddordeb yng nghronfa 'Trawsnewid Trefi' am gyfraniad tuag at y prosiect am hysbysfyrddau digidol.

(c) Rhoddodd y Clerc adroddiad ar lafar am gyfarfod diweddar o weithdy 'Trefi Smart'.

91/21 Adnewyddu Yswiriant: Cyflwynodd y Clerc prisiau a dderbyniwyd i adnewyddu polisi yswiriant cyfunol y Cyngor (yn ofynnol yn Awst), i'w ystyried.

Penderfynwyd derbyn Cytundeb Tymor Hir 5 Mlynedd Zurich am gost o £4,380.87.

Fe benderfynwyd ymhellach i ofyn i brocer lleol am brisiau ar adeg yr adnewyddiad nesaf

92/21 Fferm Wynt Awel y Môr:

Penderfynwyd cyfeirio unrhyw adroddiad i gyfarfod y Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio sydd i'w gynnal ar 27^{ain} Gorffennaf 2021.

93/21 Digwyddiad Ar-lein Cymorth Cynllunio Cymru / Un Llais Cymru:

Rhoddodd y Cyngorydd Jeff Pearson adroddiad ar lafar am y digwyddiad Adfywio Trefi a Chymunedau Cymru yn dilyn Covid 19 a gynhaliwyd ar 23^{ain} Mehefin. I grynhoi: mae 30% o nwyddau yn cael ei brynu ar-lein nawr; trefi yn 34% siopau, 54% preswyl, 10% swyddfeydd; y rheswm am siopau gwag yw graddfeydd trethi gwaharddol a chystadleuaeth, yn arbennig yn y sector dillad; siopau cadw nwyddau 'pentyrnu'n uchel - gwerthu'n rhad' yn ffynnu; siopa ar-lein yn llawer mwy cyfleus yn dilyn Covid am fod nifer o siopau ar agor yn ystod y dydd yn unig pan fo pobl yn eu gwaith; angen adnewyddu ysbryd o gymuned, gyda chynghorau a busnesau'n cydweithio a'i gilydd a defnyddio Cynlluniau Lleoedd i wybod am anghenion trigolion; byddai cynyddu manau pedestreiddio, gwell arwyddion, mwy o finiau a seddau yn denu pobl yn ôl i ganol ein trefi.

Diolchwyd i'r Cyngorydd Pearson am ei adroddiad.

94/21 Y Gofeb Rhyfel: Cyflwynodd y Clerc pris i'w ystyried, ar gyfer y gwaith parhaus o lanhau / cynnal a chadw'r gofeb rhyfel yng Ngerddi'r Frenhines, Bae Colwyn a'r gofeb rhyfel yn Hen Golwyn.

Penderfynwyd cymeradwyo'r prisiau (£695 + TAW ar gyfer Gerddi'r Frenhines ag £120 + TAW ar gyfer y placiau yn Hen Golwyn) a rhoi awdurdod i'r contractwr dechrau ar y gwaith.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15 pmCadeirydd